# Papur Elim, Heol Awst a'r Priordy

GOFALAETH CAERFYRDDIN A BANCYFELIN

## ESMWYTH GWSG, CAWL ERFIN

**Dewiswyd gan H Brinley Enoch**

***Gweler y tu mewn am ei esboniad dros ddewis yr hen ddihareb hon***

**Rhifyn 1**

**PAPUR MEDI 2024**

# Gair gan ein Gweinidog

## Ar Daith

***CROESO*** i rifyn cyntaf Papur Elim, Heol Awst a'r Priordy. Llawenydd mawr yw cynnwys newyddion tair eglwys yr Ofalaeth sydd yn y dref mewn un papur.  Diolch yn fawr iawn i Alun Charles am gytuno i barhau gyda'r gwaith o olygu'r papur. Cofiwch roi gwybod i ni os oes urnhyw newyddion i'w rhannu os gwelwch yn dda.

Wel, mae'n fis Medi unwaith eto.  Hedfanodd mis Awst. Cawsom Eisteddfod wych ym Mhontypridd, a chefais gyfle wedi'r 'Steddfod i ddiflannu i'r Alban am wyliau bach.




Mae wedi bod yn ddymuniad gen i ers blynyddoedd i fynd ar daith drwy Ucheldir yr Alban (Highlands) i Fort William, i'r gogledd a chroesi i Ynys Skye. Eleni amdani felly. Ni chefais fy siomi. Roedd y golygfeydd yn odidog, ein cyd-Geltiaid yn hynod o gyfeillgar a'r croeso ym mhob man yn un cynnes iawn.

Nid yw Ynys Skye yn brin o hanes a chwedloniaeth, ac mae hanes Cristnogaeth ar yr ynys yn hynod o ddiddorol hefyd.

Chwaraeodd cenhadon Cristnogol cynnar, gan gynnwys Sant Columba, ran hanfodol wrth lunio tirwedd grefyddol a diwylliannol yr ynys. Mae gweddillion capeli hynafol a phriordai mynachaidd sydd i'w gweld yma ac acw ar draws Skye yn atgof tawel o orffennol ysbrydol yr Ynys.

Gadawodd mynachaeth farc annileadwy ar ddiwylliant Skye, gan ddod â thon o newid addysgol a diwylliannol yn ei sgil. Yn y cyfnod hwn hefyd adeiladwyd safleoedd crefyddol amrywiol, rhai ohonynt yn sefyll hyd heddiw, yn cynnig ffenestr i daith ysbrydol yr ynys.

Mae'r Eglwys Gristnogol ar waith ar yr ynys o hyd, ac yn Portree, sef y dref fwyaf ar Skye, mae trawsdoriad o draddodiadau eglwysig yn addoli'n gyson - Eglwys Bresbyteraidd Rydd yr Alban, Eglwys

Episcopaidd yr Alban,  yr Eglwys Gatholig, Eglwys y Plwyf, Y Bible Church a hefyd Eglwys XCEL.

***DYMA*** godi copi o’r weddi Albanaidd hon wrth ymweld ag un man addoli.  Mae’n weddi sy’n briodol i ni fel Gofalaeth wrth i ni gychwyn tymor newydd yn ein hanes:

Bydded bob amser waith i’ch dwylo i’w wneud.
Bydded bob amser ddarn arian neu ddau yn eich poced.
Bydded i'r haul dywynnu ar eich ffenestr,
Bydded i’r enfys ddilyn pob cawod o law.
Bydded bob amser i law ffrind fod yn agos atoch.
A bydded i Dduw lenwi eich calon â llawenydd i'ch calonogi.

**A’r Fendith Geltaidd hon:**

Boed i'r ffordd o’ch blaen godi i'ch cyfarfod.
Boed i'r gwynt fod wrth eich cefn bob amser.
Boed i'r haul dywynnu'n gynnes ar eich wyneb
a'r glaw i ddisgyn yn feddal ar eich caeau.
A hyd nes y cawn gyfarfod eto,
boed i Dduw eich dal yng nghledr Ei law.

**Amen**

*Gach beannachadh*

Pob bendith

**DIWRNOD HEDDWCH RHYNGWLADOL**

**Dydd Sadwrn 21 MEDI 2024**

**Cofiwch wylio am drefniadau Cymdeithas y Cymod a Chyngor Tref Caerfyrddin a Chyngor Sir Caerfyrddin i godi’r Faner Heddwch Ryngwladol**

# DARLLENIADUR

| Mis Medi | Darlleniad |
|---|---|
| Wythnos 1 | Luc 14: 25-33 |
| Wythnos 2 | Ioan 3: 13-17 |
| Wythnos 3 | Luc 15: 1-10 |
| Wythnos 4 | Luc 16: 1-13 |
| Wythnos 5 | Luc 16: 19-31 |

**DIOLCH YN FAWR**

***Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad***

**JOHN A MAIR MEREDITH**

***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***

**CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYRDDIN**



**CWRDD CHWARTER**
**Dydd Iau, 12 Medi 2024**
**Pen-y-bont**

**Y Gynhadledd am 4**

**Cyfarfod yr Hwyr am 7**
**Ceir anerchiad gan**
**JANE HARRIES**
**Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru**
**Un sydd wedi bod yn ymgyrchydd heddwch a hawliau dynol ar hyd ei hoes.**



**YN DYMUNO NODDI PAPUR YR OFALAETH?**
**Cyswllt**
**PHILIP JONES**
**Trysorydd**
**☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk**

# PERERINDOD YR OFALAETH









**Joan Thomas….**



## PERERINDOD YR OFALAETH

***FORE SUL***, 23 Mehefin, aeth llond bws o aelodau a chyfeillion ar y cyntaf o bererindodau Gofalaeth newydd Caerfyrddin a Bancyfelin, gyda'r gyrrwr ardderchog, Elfed Lewis, wrth lyw'r bws. Ein cyrchfan oedd capel bach Soar y Mynydd yn y mynyddoedd uwchben Tregaron, er mwyn mynychu oedfa dan ofal ein Gweinidog, y Parchg, Beti-Wyn James.



Ein arhosfan cyntaf oedd Neuadd Gymunedol Cwmann, ger Llambed. Paratôdd chwiorydd Eglwys Brondeifi luniaeth blasus tu hwnt ar ein cyfer, cyn inni wrando ar Catrin Griffiths, un o wirfoddolwyr Tir Dewi, yn absenoldeb anorfod y Parchg Wyn Thomas, yn siarad am yr elusen. Fe'i sefydlwyd tuag 8 mlynedd yn ôl gan y Canon Eileen Davies er mwyn cynnig clust i wrando ar bobl sy'n dymuno siarad am eu problemau. Roedd hi'n ymwybodol fod angen help ar ffermwyr a ddioddefai amser anodd. O fewn Esgobaeth Tyddewi y gweithiai'r elusen ar y dechrau, gan ehangu trwy Gymru gyfan fel y cynyddai nifer y galwadau a'r gwirfoddolwyr. Erbyn hyn ceir tua chant o bobl o amrywiol gefndiroedd yn gwirfoddoli i Dir Dewi. Mae'r gwasanaeth yn gyfrinachol, ac am ddim i'r rhai sy'n cysylltu, gyda llinell gymorth o 9.00yb hyd 9.00yh, a rhywun ar gael dros nos hefyd. Gwrando a wna'r gwirfoddolwyr yn bennaf, gan mai'r peth pwysig i'r rhai sy'n dioddef yw siarad, a rhannu gofid. Un canlyniad cadarnhaol i'r gwaith o wrando yw bod y gwirfoddolwyr a'r rhai sy'n gofyn am help yn creu perthynas agos iawn, a dônt yn ffrindiau parhaol.






Cyn cyrraedd capel Soar y Mynydd cawsom gyfle i fwyta'n picnic, cael awyr iach pe dymunem, ac ymestyn y coesau, yn ardal hyfryd Cwm Berwyn a golygfeydd godidog yr ardal.

Roedd yr oedfa yn y capel am 2.00yp dan ofal Beti-Wyn James, gyda chymorth Natalie Morgan yn darllen Salm 1, a'r Parchg Tom Defis yn darllen Salm 46. Roedd gweddi Beti-Wyn yn sôn am ddylanwadau, a dyna hefyd oedd thema'r bregeth. Cyfeirioodd Beti-Wyn at nifer o'r afonydd y sonnir amdanynt yn Y Beibl, a'r cyffro a geir mewn afon wrth i gerrig gael eu taflu iddi, gyda maint y garreg yn effeithio ar faint y cyffro. Yr un math o beth a geir mewn bywyd. Mae rhai pobl yn dylanwadu yn fwy arnom nag y gwna eraill. e.e. ein teulu. Felly roedd hi yn hanes Iesu Grist a fyddai'n cydnabod dylanwad ei fam, yn arbennig, arno. Yn ogystal â'r teulu mae pobl nad ydynt o angenrheidrwydd o'r un anian â ni yn effeithio arnom, e.e. cyfeiriodd Beti-Wyn at y Cristion, Martin Luther King, yn cael ei effeithio gan Ghandi, yr Hindŵ. Dylanwadodd Iesu Grist, yn ei dro, ar nifer o bobl, ond y dylanwad mwyaf oedd Duw yn anfon ei fab ei hun i'n byd ni. Soniodd hefyd am effaith yr Ysbryd Glân ar ddilynwyr Iesu. Wrth gloi gofynnodd ba ddylanwad a adawn ni ar bobl eraill, gan ei bod yn ddyletswydd arnom i ddylanwadu'n dda ar bobl.





***YN DILYN*** yr oedfa teithiwyd tuag at Lyn Brianne i aros yno am ychydig, a chael cyfle i fwynhau hufen iâ wrth yr argae, cyn tramwyo i'r New Cross, Dryslwyn, a chael llond bol o swper blasus gyda theulu'r Blakeman. Cyrhaeddwyd gartref wedi mwynhau, cael diwrnod bendithiol yng nghwmni'n gilydd, ac yn edrych ymlaen at y bererindod nesaf. Diolch i Beti-Wyn am yr holl waith trefnu.



**CAPEL HEOL AWST**

**CWRDD HANNER BLYNYDDOL**

**Dydd Sul 8 Medi 2024 – 3pm**


**Y PARCHEDIG IRFON ROBERTS**
**a'n GWEINIDOG**

***Bydd aelodau a diaconiaid newydd yn cael eu derbyn yn ystod y cwrdd***



## PERERINDOD YR OFALAETH
















## RHAGLEN CYMDEITHAS YR OFALAETH

## ~ 2024/2025~

| Dyddiad | Diwrnod | Amser | Lle | Digwyddiad |
|---|---|---|---|---|
| 29.09.2024 | Sul | 12 erbyn 12.30 | Gwesty'r Llwyn Iorwg | Cinio Sul yr Ofalaeth |
| | | | | |
| 06.10.2024 | Sul | 5 | Y Priordy | Oedfa Ddiolchgarwch a Swper Cynhaeaf gyda'n Gweinidog a'r Hybarch Eileen Davies Archddiacon Aberteifi |
| | | | | |
| 08.10.2024 | Mawrth | 2 | Festri Heol Awst | Te Prynhawn i ddathlu pen-blwydd arbenning H Brinley Enoch yn 100 oed |
| | | | | |
| 22.10.2024 | Mawrth | 12 erbyn 12.30 | Gwesty'r Hebog | Cinio Diolchgarwch |
| | | | | |
| 20.11.2024 | Mercher | 2 | Amgueddfa Sir Gâr Abergwili | Siaradwr Gethin Thomas |
| | | | | |
| 05.01.2025 | Sul | 10 | Y Priordy | Oedfa dechrau'r Flwyddyn yng ngofal un o deuluoedd yr Ofalaeth a'n Gweinidog |
| | | | | |
| 18.02.2025 | Mawrth | 2 | Festri Heol Awst | Siaradwr Richard Eynon Huws Cofio W Rhys Nicholas (1914-1996) gyda Chantorion Brynawel (Helen Gibbon a Ffrindiau) |

| Dyddiad | Diwrnod | Amser | Lle | Digwyddiad |
|---|---|---|---|---|
| 04.03.2025 | Mawrth | 12 erbyn 12.30 | Clwb y Cwins | Cawl i Ddathlu Gŵyl Dewi<br>Saradwr gwadd<br>Heledd Cynwal |
| | | | | |
| 23.03.2025 | Sul | 6 | Festri Heol Awst | Cyngerdd yng ngofal Aelwyd Hafodwenog, Tre-lech<br>Cadeirydd: Annell Dyfri<br>Mynediad: £10<br>Elw at Aelwydydd yr Urdd lleol |
| | | | | |
| 15.04.2024 | Mawrth | 2 | Festri Heol Awst | Diddanwr<br>Kees Huysmans, Tre-groes |
| | | | | |
| 19.05.2025 | Llun | 7 | Festri'r Priordy | Noson yng nghwmni<br>Ysgol Farddol Caerfyrddin |
| | | | | |
| 21.06.2025 | Sul | | | Pererindod yr Ofalaeth |

**CROESO CYNNES I BAWB**

.

| CYRDDAU DIOLCHGARWCH Y PRIORDY<br>*Dydd Sul, 6 Hydref 2024* | |
|---|---|
| ***Yn y Bore am 10***<br>***Cwrdd Diolchgarwch y Plant gyda'n Gweinidog***<br>***Derbynnir rhoddion at y Banc Bwyd*** | ***Yn yr Hwyr am 5***<br>***Cwrdd a Chymundeb a Swper Diolchgarwch gyda'r Hybarch Eileen Davies, Archddiacon Aberteifi a'n Gweinidog*** |

## TUDALEN BLAEN



## ESMWYTH GWSG, CAWL ERFIN

**Dyma reswm Brinley Enoch, diacon yn Heol Awst, a chyfrifydd cyn iddo ymddeol, dros ddyfynnu'r hen ddihareb hon.**

***'Fyddai ambell i gleient ddim yn moyn dangos popeth o'i eiddo yn ei gownts ac wrth gwrs i archwilwyr y dreth incwm. Ond byddwn i'n eu cynghori i gyd i ddangos y cwbl er mwyn iddyn nhw osgoi cael eu dal a gorfod talu cosb. R'own i'n dyfynnu'r dywediad uchod. Weles i neb yn gwrthod.'***

**Diolch yn fawr i Brinley Enoch am ei eiriau doeth a dymunwn yn dda iawn iddo ac yntau ar drothwy dathlu'i ben-blwydd yn gant oed!**

***(Mae J J Evans yn y gyfrol Diarhebion Cymraeg yn esonio'r ddiahreb fel hyn: Mae'n well bod yn fodlon ar ychydig na byw ar enillion twyllodrus.)***



| CYFARFODYDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR EIN GOFALAETH | | | |
|---|---|---|---|
| ELIM | Dydd Mercher, 4 Medi | 1.30 | Festri Elim |
| HEOL AWST | Dydd Mercher 18 Medi | 2.00 | Festri Heol Awst |
| Y PRIORDY | Nos Lun 16 Medi | 7.30 | Festri'r Priory |

Gwefan yr Undeb: www.annibynwyr.org




# CWIS Y GWYRTHIAU

**Tybed pa mor gyfarwydd ydych chi â'r gwyrthiau yn fersiwn beibl.net?!!!!**

**Llanwch y Bylchau! Rhowch gynnig arni! Ceisiwch ddyfalu! Pob lwc!!**

## Marc 8: 22-26

## Iacháu dyn dall yn Bethsaida



**Dyma nhw'n -------- Bethsaida, a dyma rhyw bobl yn dod â dyn ---- at Iesu a gofyn iddo ei gyffwrdd. Gafaelodd Iesu yn ---- y dyn dall a'i arwain allan o'r pentref. Ar ôl ----- ar lygaid y dyn a gosod dwylo arno, gofynnodd Iesu iddo, "Wyt ti'n ---- o gwbl?" Edrychodd i fyny, ac meddai, "Ydw, dw i'n gweld pobl; ond maen nhw'n edrych fel ---- yn symud o gwmpas." Yna rhoddodd Iesu ei ddwylo ar lygaid y dyn ---. Pan agorodd y dyn ei lygaid, roedd wedi cael ei olwg yn --! Roedd yn gweld ------ yn glir. Dyma Iesu'n ei anfon ----, a dweud wrtho, "Paid mynd i mewn i'r pentref."**

**ATEBION – TUDALEN 17**

# RHAGLEN CYMDEITHAS CHWIORYDD ELIM



| Dyddiad | Diwrnod | Amser | Lle | Digwyddiad |
|---|---|---|---|---|
| 17.07.2024 | Mercher | 2 | Gweithdy'r Saer Coed Gwyndaf Davies | Ymweliad |
| | | | | |
| 15.10. 2024 | Mawrth | 2 | Festri Elim | Helen Jones yn trefnu blodau |
| | | | | |
| 26.11.2024 | Mawrth | 12 | Pentrecelyn | Cinio Nadolig |
| | | | | |
| 21.01.2025 | Mawrth | 2 | Festri Elim | Peter Hughes Griffiths |
| | | | | |
| 11.02 2025 | Mawrth | 2 | Festri Elim | Janet Nott |
| | | | | |
| 28.03.2025 | Gwener | 7 | Festri Elim | Dathlu Gŵyl Dewi |
| | | | | |
| 29.04.2025 | Mawrth | | | Taith Ddirgel |

# TE PRYNHAWN CHWIORYDD ELIM

**Daeth tymor Chwiorydd Elim Ffynnon-ddrain i ben drwy fwynhau te prynhawn hynod flasus yng Nghegin Stacey, Amgueddfa Caerfyrddin, Abergwili. Diolch i Simon Jerermy, mab y diweddar Roland Jerermy a oedd yn Ysgrifennydd Elim tan ei farwolaeth yn ddiweddar, am ei garedigrwydd mawr. Prynhawn pleserus iawn yn wir.**



**GAIR O WERTHFAWROGIAD**

Derbyniwyd llythyr gan yr Undeb yn diolch i griw ein Hysgol Sul yn y Priordy am fod mor barod i gyfrannu at ffilmiau Prosiect Denman 2024 ar y thema 'Ein Hysgol Sul: Dysgu am Iesu'. Cafodd y ffilm ei dangos yn ystod Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn Nhrefforest eleni. Derbyniwyd rhodd hefyd gan yr Undeb fel arwydd o werthfawrogiad i'w ddefnyddio ar gyfer y gwaith sy'n digwydd o fewn Ysgol Sul ein Heglwys.

Gallwn weld yr holl ffilmiau a'r cyweithiau a grëwyd gan ysgolion Sul drwy Gymru, yn cynnwys ein gwaith ni, ar wefan Undeb yr Annibynwyr, sef annibynwyr.cymru.

Diolch yn fawr iawn i'r Undeb am y rhodd ac i bawb yn ein Hysgol Sul a gyfrannodd at y fenter ym mhob rhyw fodd.



*Diolch i blant Ysgol Sul y Priordy am gynnal gwasanaeth yng Nghartref Erw Hir cyn gwyliau'r haf ac i Heledd ap Gwynfor a'i thîm am ofalu amdanynt*

**Osian Hayes…**

## Alys a'r Tri Gŵr Noeth




***NA***, s'mo chi wedi camddarllen! **N**oeth. Band roc ifanc Cymraeg o Ysgol Maes y Gwendraeth, a dim byd arall yw'r Tri Gŵr Noeth! - Onest!

Dechreuodd y band bron i flwyddyn yn ôl wrth i fi, Osian Hayes, 'jamo' gyda fy ffrindiau Iago a Gwyn o Ysgol Maes y Gwendraeth adeg amser cinio. Dwi'n chwarae'r gitâr, mae Iago ar y drymiau tra bo Gwyn yn canu ac yn chwarae gitâr. Penderfynwyd bod angen ychydig mwy o ddyfnder, ac mewn gwirionedd, ychydig mwy o sens ar y band(!) - felly ymunodd Alys i chwarae'r gitâr bas.

Mis Ionawr diwethaf, daeth gwahoddiad gan Derek Rees sy'n gweithio i Fenter Cwm Gwnedraeth-Elli i ni gefnogi'r canwr Llew Davies oedd yn cynnal noson yng Nghaffi Cwtsh, Pontyberem. Hwn oedd ein profiad cyntaf o chwarae set o flaen cynulleidfa ac mae'n debyg bod pobl wedi mwynhau ein rhaglen o 'covers' ac ambell gân wreiddiol. Ni'n hynod o ddiolchgar i Derek sydd wedi'n cefnogi ni fel band llawer iawn dros y misoedd diwethaf, ac wedi sicrhau ein bod ni'n cael profiadau arbennig.


Fe drefnodd y Fenter noson "Brwydr y Bandiau: Sŵn Sir Gâr" yn y Gwanwyn, a chafodd tri band o ysgolion lleol wahoddiad i gystadlu yn Neuadd y Gwendraeth. Roedd yn noson hyfryd gyda rhieni a ffrindiau'n ein cefnogi, a'r tri band yn cyflwyno set o ganeuon yn rhan gynta'r noson, a "Dros Dro" - band talentog a llwyddiannus arall o Ysgol Maes y Gwendraeth yn wreiddiol - yn ein diddannu yn yr ail hanner. Bu'r Tri Gŵr Noeth yn ddigon ffodus i ennill y gystadleaeth y noson honno.

Erbyn hyn ry'n ni wedi chwarae mewn sawl gig gan gynnwys; Gig



annibyniaeth 'Yes Cymru' yn bar Cwrw yng Nghaerfyrddin, ar stondinau "Arfor/Llwyddo'n Lleol" ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol, a hyd yn oed yng Ngŵyl Canol Dre Caerfyrddin. Fel mae lyrics cân gan Dros Dro yn dweud, "S'dim byd gwell na chwarae ar y stêj!"

*UN* peth grêt am fod mewn band yw cael cwrdd ag aelodau bandiau eraill, ac ry'n ni wedi chwarae sawl tro gyda band o'r enw Iwtopia - sy'n cynnwys un arall o'r Priordy sef Tomos Morgans. Mae'r Tri Gŵr Noeth ac Iwtopia, drwy'r Egin, wedi cael cyfle i recordio dros wythnosau'r haf a gobeithio y bydd y caneuon yn cael eu rhyddhau ar Spotify cyn bo hir. Ond, yr uchafbwynt – heb os nac oni bai, yw'r cyfle sydd wedi dod i ran Alys a'r Tri Gŵr Noeth, i gefnogi'r anfarwol Dafydd Iwan yn Neuaddd Goffa Pontyberem yn Mis Tachwedd y flwyddyn yma! Welwn ni chi yna!




| CWIS Y GWYRTHIAU<br>beibl.net<br>ATEBION | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | cyrraedd | 6 | coed |
| 2 | dall | 7 | eto |
| 3 | llaw | 8 | ôl |
| 4 | poeri | 9 | popeth |
| 5 | gweld | 10 | adre |

**Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin?**
**Trowch at: cyfundeb.com**

## LLUNIAU TAITH DIWEDD TYMOR YR YSGOL SUL

### Ysgol Sul Y Priordy yn mwynhau Helfa 'Beti-Wyn' yn yr Amgueddfa a chinio i ddilyn









Amgueddfa Sir Gâr
Carmarthenshire Museum



Amgueddfa Sir Gâr
Carmarthenshire Museum



**Mwynhau paned wedi'r oedfa yn y Priordy**
**cyn i bawb wasgaru dros yr haf**

















# Ifanc@Elim,HeolAwst,Priordy




## Helo bawb!

Croeso nôl wedi gwyliau'r haf. Dyma groesawu plant a phobl ifanc Elim, Heol Awst a'r Priordy atom y mis hwn! Onid yw hi'n wych ein bod yn cynhyrchu un papur ar gyfer y tair eglwys. Ardderchog!

Fe fydd amserlenni yr Ysgolion Sul yn eich cyrraedd dros y cyfryngau cymdeithasol, ebost, wattsap a messenger ond dyma un neu ddau o ddyddiadau pwysig i'w nodi!

## Bore Sul, 8 Medi


Oedfa Deulu yn y Priordy am 10



## Diolchgarwch

Bore Sul 6 Hydref am 10.00
yn Y Priordy, Oedfa Deulu.

Bore Sul 6 Hydref am 11.30
yn Elim, Oedfa Deulu



Byddwn yn derbyn nwyddau tuag at y Banc Bwyd yn oedfaon diolchgarwch yr Ofalaeth eleni, ac mae croeso i bawb gyfrannu ac nid y plant yn unig! Gwerthfawrogir rhoddion o duniau o fwyd, grawnfwyd, te, coffi, siwgwr, sudd oren/afal, pasta a reis. Dim byd melys os gwelwch yn dda. Diolch.



# Chwilotair llythyren ‘S’

(un llythyren i bob sgwâr)

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| E | N | E | D | D | Y | W | R | O | M | A | C | I | S |
| Y | S | S | E | S | N | A | F | F | E | T | S | A | M |
| L | I | H | N | S | A | M | U | E | L | S | A | U | L |
| H | M | I | O | I | I | A | N | S | N | I | S | M | A |
| A | E | F | A | R | H | A | U | O | F | S | A | S | S |
| S | O | F | M | O | H | E | M | S | I | O | L | W | S |
| O | N | R | I | F | H | I | A | A | M | E | I | P | E |
| L | U | A | N | C | S | S | S | N | S | A | S | E | C |
| O | S | R | A | A | R | I | D | C | A | I | O | R | H |
| M | S | S | A | I | N | T | M | T | M | R | S | O | A |
| A | S | C | A | S | C | M | L | A | S | A | C | L | R |
| N | L | S | S | F | L | S | S | I | O | M | O | A | E |
| R | A | S | S | A | U | R | I | D | N | A | A | F | I |
| M | W | W | S | H | C | A | R | D | A | S | I | A | A |

SOLOMAN
SWPEROLAF
SAMARIA
SILAS
SAMUEL
SIMON
SIMEON
SACHEUS
SADRACH
STEFFAN
SAUL
SAMSON
SANCTAIDD
SALM
SECHAREIA
SICAMORWYDDEN
SHIFFRA
SAINT

Hwyl fawr tan tro nesaf, Beti-Wyn

# BEDYDDIADAU YN ELIM

**Erin a Betsi, merched Miriam ac Aled Walters, fore Sul 7 Gorffennaf**



**Ioan Myrddin mab Jonathan a Natalie, a brawd Gwenno ac Elina fore Sul 21 Gorffennaf**



## Beca Elfyn, Miriam Williams ac Olwen Williams ….

### PROFIAD ARBENNIG!

***DYNA*** syrpreis gawson ni ferched Blwyddyn 7 ac 8 fore Mawrth, 2il o Orffennaf! Doedd dim cliw gyda neb bod hyfforddwr tîm Menywod pêl-droed Cymru, Rhian Wilkinson, yn dod i'r ysgol. Ond ar ôl i Dr Jones gyhoeddi'r newyddion roedd pawb mor gyffrous! Fe gawsom ni brofiad arbennig o dda ac wedi mwynhau mas draw! Roedd yn hwyl cyfarfod â hi a dod i'w hadnabod hi'n well a dysgu am ei gyrfa a'i bywyd cynnar.



Ganwyd Rhian yng Nghanada yn 1982 ond symudodd y teulu i'r Bontfaen am flwyddyn yn 1990. Gan nad oedd tîm pêl-droed i ferched yn yr ysgol, ymunodd mam Rhian gyda Chymdeithas Rieni'r ysgol i geisio dwyn perswâd arnynt i newid pethau. Ar ôl dychwelyd i Ganada, fe gynrychiolodd Rhian y tîm cenedlaethol am nifer o flynyddoedd gan ennill medal efydd pêl-droed yng ngemau Olympaidd 2012 a 2016.



Fe gawsom hefyd gyfle i ddysgu llawer iawn o ymarferion sydd nid dim ond ar gyfer cael ein corff i symud yn siarp ond ein hymennydd yn ogystal. Er enghraifft, roedd yna un bib glas ac un bib gwyrdd ar y llawr, ac os oedd Rhian yn gweiddi "glas" roedd angen i ni redeg at y bib gwyrdd, ac os roedd hin gweiddi "gwyrdd" roedd angen i ni redeg at y bib glas. Roedd hwn yn hwyl fawr, ac yn hala ni i feddwl ac i ddechrau troi'r ymennydd ymlaen go iawn! Roedd hi'n draed moch am sbel, ond daethon ni'n well erbyn y diwedd.



***BRAINT*** oedd cael mynchu gêm merched Cymru yn erbyn Kosovo nos Fawrth, 16eg o Orffennaf ym Mharc Y Sgarlets, ac mae'n rhaid ein bod ni wedi rhoi tipyn o lwc i Rhian a'r tîm achos enillon nhw 2-0!!





## CORNEL
## CODI GWÊN!

**Cwestiwn**

Beth ddywedodd y Gweinidog ar ôl archebu'r peth anghywir?

**Ateb**

Ymddiheuriadau. *Clerical error!*


**YSGRIFENNYDD NEWYDD ELIM**

***Llawenydd yw cyhoeddi bod Brian Walters, Clunmelyn wedi ei ethol yn Ysgrifennydd Elim i olynu'r diweddar Roland Jeremy.***

***Pob dymuniad da iddo wrth y gwaith.***







***BLYCHAU STAMPIAU A CHETRYS***
***Y PRIORDY***
***Croeso i chi gyfrannu – y cyfan yn mynd at achosion da***

# GŴYL CANOL DRE - STONDIN YR OFALAETH



















**Elinor Wyn Reynolds…**



## Tua'r dyfodol gyda'r Priordy

Yr ydym ni fel aelodau'r Priordy wedi cyrraedd rhyw fath o gefndeuddwr yn ein hanes. Mae'r achos wedi bod yn mynd ers dros 150 o flynyddoedd ac wedi tystiolaethu i'r genadwri Gristnogol yn y rhan hon o'r dref ers y 1870au. Nawr, does dim byd yn para byth, a does dim yn aros yr un peth, a rhaid i ni fel eglwys edrych ar ble rydyn ni nawr ac edrych o ddifri ar sut mae'r achos am ddatblygu, esblygu a newid. Yn syml, ydyn ni'n addas at bwrpas, fel eglwys yn yr unfed ganrif ar hugain?

Erbyn hyn wrth gwrs, y mae'r adeilad yn mynd yn hen ac rydym wedi bod yn gweld bod cynnal a chadw'r adeilad i'r safon dderbyniol yn dipyn o her sydd hefyd wedi mynd yn ddrud dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'n debyg y medrem daflu arian at yr hen le ac na fyddai sicrwydd y buasem ni'n datrys rhai o'r problemau sylfaenol sydd o'u lle ar yr adeilad - pethau fel tamprwydd, dŵr yn dod mewn drwy pwy ŵyr ble, angen diweddaru'r adeilad i fod yn hygyrch ac yn addas ar gyfer pawb ac ar gyfer anghenion eglwys fodern yn yr oes hon. Ac mae nifer o gwestiynau i'w gofyn. Pethau fel: Ydyn ni eisiau adeilad newydd at bwrpas? Ydyn ni eisiau llogi rhywle modern yn hytrach na bod yn berchen ar rywle? Ydyn ni eisiau aros ble'r ydyn ni ac addasu'r hyn sydd gennym? Yn bendant, fedrwn ni ddim aros fel ag yr ydym ni, achos mae angen i ni fod yn ymatebol i'n hanghenion ni heddiw. Felly, fe benderfynon ni dro yn ôl y buasem ni'n gwneud ychydig o waith ymchwil gan weld beth oedd eglwysi ffyniannus eraill wedi bod yn ei wneud, ac mi welsom ni fod sawl model ar gael sy'n gweithio. Ond beth sydd am weithio i ni? Efallai nad ydym ni'n hollol siŵr o beth yw hynny ar hyn o bryd, os fe benderfynon ni yn y cyfamser y buasem ni'n cychwyn ar gyfnod o drefnu oedfaon blasu er mwyn i ni gael ystod o brofiadau fyddai'n medru'n helpu ni i fod yn ddewr a chymryd camau hyderus tua'n dyfodol.



Felly yn ystod mis Medi byddwn yn parhau â'r rhaglen flasu gan gynnal

oedfa ac ysgol Sul yng nghanolfan Magu yn y dref (y tu cefn i Marks and Spencer, sef yr hen ganolfan ddydd) am **10am bore Sul 22 Medi** – dewch draw i brofi'r awyrgylch ac arhoswch i gael paned a bisgedi yng nghwmni cyfeillion a theulu'r eglwys. Yna cynhelir gwasanaeth yng ngwesty'r Llwyn Iorwg am **10am bore Sul 29 Medi** a hynny cyn Cinio Sul yr Ofalaeth yn yr un man. Does dim rhaid i chi ddod i'r cinio (er bod croeso mawr i chi wneud hynny) ond dewch i'r gwasanaeth yn y bore a bydd paned a bisgedi i ddilyn yno. Mae'n gyfle gwych i ni gymdeithasu a mwynhau gyda'n gilydd.





Ar ôl y cyfnod blasu nesaf, bydd holiaduron yn cael eu rhannu yn ein plith er mwyn i ni weld beth yw ymateb pobl i'r profiadau newydd hyn a beth allwn ddysgu ohonynt. Byddai'n dda clywed beth yw barn pobl am y profiad o gynnal addoliad mewn mannau gwahanol, a dysgu beth sy'n gweithio a beth sydd angen mwy o waith arno. Gadewch i ni bwyso a mesur, i drafod a rhannu ein meddyliau a syniadau mewn modd adeiladol.

Yn bendant bydd angen i ni fod yn ddewr ac yn barod i freuddwydio am y dyfodol sydd o'n blaenau, gan gofio mewn gwirionedd mai *pobl* yw eglwys, nid adeilad.

Mae gennym ni eglwys i fod yn falch ohoni yn y Priordy, felly ymlaen â ni gyda'r cynllun gyda hyder a ffydd.

**Cinio Dydd Sul yr Ofalaeth**
**Dydd Sul 29 Medi 2024 - 12 erbyn 12.30**
***yn y Llwyn Iorwg      Pris - £21***
***Enwau i: Ann Walters (Elim), Olga Williams (Heol Awst),***
***Rhian Jones neu'r Daflen ar yr Hysbysfwrdd yn y Cyntedd (Y Priordy)***






**GWASANAETH CARTREF**
**PLAS Y DDERWEN**
**Prynhawn Iau – 10 Hydref 2024**
**2.30**
***gyda'n***
**Gweinidog**

**Plant Ysgol Sul Elim yn mwynhau ar eu trip i Barc Antur Clerkenhill, Hwlffordd. Cafwyd amser ardderchog.**



**Ein Papur yn sgwrsio â**

**NIGEL GEORGE**



**EP: Mae'ch gwreiddiau yn Llanelli, Nigel. Soniwch ychydig am y dyddiau cynnar.**
**NG:** *Wel, ro'n i'n unig blentyn ac yn byw ar y dechrau mewn bwthyn gyferbyn â fferm tad-cu yn Felin-foel. R'odd hi'n gymdeithas glòs a minne'n mwynhau bywyd gwledig a mynd i'r fferm yn fawr - a bwydo'r ffowls ac ati. Ond pan o'n i tuag wyth oed, cafodd fy mam swydd newydd fel gofalwraig, neu geidwad y capel y pryd hwnnw, a symudod ni i dre Llanelli, i dŷ capel Siloah yn ardal Glan-y-môr. Ces fynd wedyn i ysgolion yn y dre – Ysgol Dewi Sant ac yna Ysgol y Srade.*

**EP: Eich pennaeth yn Ysgol Dewi Sant oedd Olwen Williams - enw chwedlonol yn Llanelli. Hi agorodd yr ysgol ar 1 Mawrth 1947. Beth ydych chi'n ei gofio amdani?**
**NG:** *Wel ro'dd hi'n gymeriad arbennig iawn. Yn Gristion ac yn Gymraes gloyw - yn gallu bod yn llym ond yn deg a charedig hefyd. Ro'dd hi'n ddiacon yng Nghapel Als. Dw i'n cofio bore dydd Llun yn yr ysgol yn arbennig. Byddai'n gofyn i bob disgybl ble roedd pregethwr y Sul wedi codi'i destun a byddai'n rhaid i ni ddarllen ychydig o adnodau o'r darn darllen roedd e wedi'i ddewis. Ro'n i'n ceisio bod yn barod amdani drwy fynd â phensil a phapur i'r cwrdd ar fore Sul! Ro'dd hyd yn oed y rhai nad oedd wedi bod yn y capel, trwy ryw ryfedd wyrth, yn ffeindio rhywbeth i'w ddweud!*

**EP: Mae'n drist gweld Siloah yn adfail erbyn hyn. Roedd mynd mawr ar y capel yn eich dyddiau chi?**




**NG:** *Mae'n drueni mawr. Ro'n i'n mynd deirgwaith ar y Sul. Ro'dd cynulleidfa'r hwyr yn llawer mwy na'r bore y pryd hwnnw – ac yn sylweddol mewn oedfa Gymun. Byddwn i'n helpu Mam i gludo'r bara a'r gwin i'r seddau. Ro'dd y llestri Cymun yn cael eu dosbarthu cyn yr oedfa a byddai Mam yn gwybod ble roedd pawb yn eistedd! Caeodd y capel yn 2005 ac ro'n i yn yr oedfa olaf i'w chynnal yno. Fy Nhad oedd yr Ysgrifennydd ar y*

*pryd. Ro'dd Mam yn dipyn o adroddwraig hefyd ac yn ffrindiau gydag Elsie Nicholas,* yr *adroddwraig a'r eisteddfodwraig o Bontarddulais ac un o hoelion wyth Eisteddfod Gadeiriol yr Hendy. Ro'dd Mam yn hoff iawn o'r gyfrol Adroddiadau Abiah… i bob oed gan Abiah Roderick. Bydde hi'n adrodd y cerddi'n aml iawn a dw i o ganlyniad yn gallu adrodd ambell un, fel Melinau Duw, ar y cof! Mae'r gyfrol 'da fi a Mam wedi tynnu llinell dan y geiriau y bydde hi'n eu pwysleisio. Un Sul pan nad o'dd pregethwr gyda ni yn Heol Awst, fe luniais i fyfyrdod ar y gyfrol hon.*

**EP: Ar ôl bwrw prentisiaeth yn Pressed Steel-Fisher yn Llanelli, fe ddewisoch chi newid cyfeiriad.**
**NG:** *Wnes i gwpla fy nhrentisiaeth yn Pressed Steel-Fisher. Bues i'n ffodus i gael fy newis yn Brentis Ifanc y Flwyddyn am ddwy flynedd yn olynol- ond do'n i ddim wrth fy modd yno a dweud y gwir. Dilyn y llif o'n i wrth fynd yno mewn gwirionedd. Penderfynais feddwl am yrfa arall ac ymuno â'r heddlu. Ces fy hyfforddiant yng Nghanolfan Hyfforddi Croesyceiliog a bues i wedyn yn gweithio yn Aberhonddu, Tref-y-clawdd, Caerfyrddin, Cross Hands a Llanelli cyn dychwelyd i Gaerfyrddin – i'r pencadlys. Bues i'n ffodus i gael fy nyrchafu'n rhingyll, arolygydd a phrif arolygydd yn ystod fy ngyrfa. Gwnes i fwynhau fy ngwaith hefyd.*

**EP: Fe sonioch chi am Aberhonddu. Mae'r dre'n bwysig i chi mewn ffordd arall hefyd, Nigel!**
**NG:** *Chi'n iawn! Yn Aberhonddu y cwrddais i â'm gwraig, Wendy. Merch fferm yw hi o ardal Libanus. Mae'i rhieni yn oedrannus erbyn hyn ond yn dal i ffermio gyda chymorth ei brawd. Mae'r ddau ohonon ni'n ymweld â'r teulu yn wythnosol ac yn helpu gyda'r siopa ac ati.*

**EP: A bellach rych chi a Wendy'n dad-cu a mam-gu**.
**NG***: Ac yn fishi ofnadw yn gofalu am yr wyrion! Mae Beverley yn athrawes yn Ysgol Gymraeg Rhydaman ac yn byw gyda'i gŵr, sy'n gweithio gyda'r Frigâd Dân, ym Mheniel. Mae'r wyrion, Alis (5 oed) a Ffredi (18 mis) yn fywiog iawn ond yn werth y byd i gyd yn grwn!*

**EP: Fel un sy'n dod o Dre'r Sosban mae rygbi wedi chwarae rhan bwysig yn eich bywyd siŵr o fod.**
**NG:** *Mae hynny'n wir. Bues i'n chwarae dros New Dock Stars, neu'r Dock fel maen nhw'n ei ddweud yn lleol – gyda'r tîm ieuenctid i ddechrau cyn cael cyfle gyda'r ail dîm a'r tîm cyntaf maes o law. Wnes i ddal ati yn Aberhonddu am sbel ond wedyn daeth hi'n amser i mi roi'r*

*ffidil yn y to. Dw i'n mwynhau gwylio rygbi a chwaraeon eraill. Ro'dd tocyn tymor da fi gyda'r Scarlets ac ro'n i yn y gêm pan gurodd Llanelli'r Crysau Duon 9-3. Un o arwyr y gêm honno oedd Delme Thomas - cymydog i mi ar un adeg - ac mae'n parhau yn arwr mawr i mi hyd heddiw.*

**EP: Ond erbyn hyn, bowlio sy'n mynd â'ch bryd.**
**NG***: Ie. Dechreues i gyda thîm heddlu Aberhonddu a chael fy newis i Dîm Heddlu Prydain. Dw i gyda thîm clwb Caerfyrddin nawr. Dw i wedi bod yn gapten y clwb a fi yw'r cadeirydd ers 2018. Yn 2019, enillodd tîm o bedwar ohonon ni, neu 'rink' fel maen nhw'n ei ddweud yn y gêm, Bencampwriaeth Cymru. Fel arfer, mae tîm sy'n ennill pencampwriaeth eu gwlad yn mynd ymlaen i gystadlu ym mhencampwriaeth Prydain ond, yn anffodus, rhoiodd Covid stop ar hynny yn ein hachos ni!*

**EP: Rych chi'n aelod yn Heol Awst ac yn dal swydd yr ysgrifennydd.**
**NG:***Ydw. Des i'n aelod yn Heol Awst yn 1994. Ro'n i'n cofio'r Gweinidog, Y Parchedig J Towyn Jones. Daeth aton ni i Siloah pan o'n i'n ddeg oed ac ro'dd e'n cael cinio gyda ni yn y Tŷ Capel. Yn rhyfedd ddigon, mae'n sôn am y diwrnod hwnnw ac yn crybwyll fy enw i yn ei ddyddiadur. Dw i'n trysori copi o'r cofnod. Des i'n ysgrifennydd yn 2011 – ar gyfnod prawf, chwedl y Gweinidog! A dw i dal ar brawf hyd heddiw – ond yn mwynhau ac yn edrych ymlaen at y cyfnod newydd hwn yn hanes Heol Awst!*

**EP: Chi'n byw bywyd llawn ond mae'n siŵr bod peth amser gan Wendy a chi i ymlacio, tybed beth wnewch chi'r pryd hynny?**
**NG:** *Mae digon i'w wneud ond ry'n ni'n hoffi mynd am dro yn y car. Mae'r Canolbarth a Sir Benfro'n ffefrynnau mawr, yn enwedig pan mae'r tywydd yn braf. Ry'n ni'n mwynhau ychydig o wyliau hefyd - mewn mannau yng Ngwledydd Prydain ar hyn o bryd fel yr Alban a Chernyw a'r Cotswolds. Mae'r cyfan yn help i adfer ychydig o nerth ar gyfer y gwaith gwarchod!!*

***Llawer iawn o ddiolch i chi Nigel am ateb y cwestiynau a phob dymuniad da i chi a'r teulu i'r dyfodol.***

# RHWYDWAITH

***EIN* cofion cynnes at bawb sy'n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy'n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phawb sydd mewn cartrefi ac yn gaeth i'w haelwydydd ar hyn o bryd. Meddyliwn yn arbennig y mis hwn am Brian Thomas (HA). Cofion cynnes atoch i gyd.**

Bu'n gyfnod prysur i amryw o aelodau'r Ofalaeth yn Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf ym Mhontypridd. Yn eu mysg ein Gweinidog yn ei swyddogaeth fel Arwyddfardd. Traddododd Tudur Dylan feirniadaeth y Goron. Roedd hefyd yn aelod o Dir Iarll, y tîm a enillodd Dalwrn BBC Radio Cymru ar Sadwrn cyntaf yr Eisteddfod. Aled Evans (Beirdd Myrddin) oedd enillydd Tlws Coffa Emyr Oernant 2024 am gân ysgafn orau'r gyfres. Gwelwyd sawl wyneb cyfarwydd yn Lleisiau Tywi, y Côr Cerdd Dant buddugol, ac yng Nghôr Llanddarog a gafodd y drydedd wobr yn y gystadleuaeth ar gyfer corau cymysg a hefyd Gôr Seingar. Elinor W Reynolds, ynghyd â disgyblion ysgolion lleol, fu'n agor y Babell Lên yn swyddogol ar Sadwrn cyntaf yr Eisteddfod. Roedd Menna Elfyn ymhlith y rhai a fu'n trafod gwerth a phwysigrwydd llenyddiaeth am ryfel, heddwch ac erledigaeth – cyfarfod a drefnwyd ar y cyd gan PEN Cymru a Chymdeithas y Cymod.

Ein llongyfarchiadau mawr i'r canlynol:



- Catrin a Iolo ar enedigaeth eu mab, Guto Ifan ac ŵyr bach Newydd i Brian ac Anne, Clunmelyn, Ffynnon-ddrain.

- Mared Ifan a Rhys Evans ar eu dyweddïad. Mae Rhys yn byw yng Nghaerdydd, yn gynhyrchydd gyda Chwmni Rondo ac yn gitarydd gyda'r Band Breichiau Hir. Pob dymuniad da iddynt.

- Maria Stedman ar dderbyn Cymrodoriaeth er Anrhydedd gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn gydnabyddiaeth am ei gwasanaeth nodedig.

Bu Huw Jones yn arddangos ffrwyth ei gynnyrch ar y rhaglen Garddio a Mwy ar S4C. Roedd graen arbennig ar y Ffa Ffrengig, rhaid dweud! A bu Dewi Snelson yn sôn am yr Ŵyl Canol Dre ar Radio Cymru. Clywyd Rebecca Hayes ar Bore Sul ar Radio Cymru yn trafod agweddau ar y ras ar gyfer arlywyddiaeth yr Unol Daleithiau gydag Elliw Gwawr – gan ganolbwyntio ar y sgil o sut i annerch.



Ein dymuniadau da i Alun Charles sy'n dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddarach y mis hwn.

Gwnaeth Erin Roderick naid parasiwt dros elusen Bloodwise Wales. Cerddodd Meleri Llwyd O'Leary 100 milltir dros fis Gorffennaf i godi arian at Adran Ddydd Cemotherapi Ysbyty Glangwili er cof am ein ffrind Siân Axford.  Pe bai rhywrai'n dymuno cyfrannu at yr achos byddai Meleri'n ddiolchgar iawn. Mae'n dal i gasglu cyfraniadau a gall bobl gyfrannu iddi hi'n bersonol neu ar ei thudalen arlein:
https://hyweldda.enthuse.com/pf/mel100miles

***I GLOI,*** dymunwn yn dda i Nansi Hayes sy'n dathlu'i phen-blwydd yn 90 oed ar 9 Medi 2024.  Pob dymuniad da i chi, Nansi, oddi wrth bob un ohonom.





## LLONGYFARCHIADAU MAWR



Ein llongyfarchiadau mawr i ieuenctid ein Gofalaeth ar eu llwyddiant yr haf hwn - ffrwyth blynyddoedd lawer o waith cydwybodol. Cawsant lwyddiant fel a ganlyn:

**Gradd**
Steffan Jones

**Tystysgrif Safon 'A'**
Siwan Jones, Gwenllian Jones, Harri Howells

**Tystysgrif Safon Uwch Gyfrannol**
Anest Elias, Gruffydd Owen, Coran Defis, Erin Roderick, Gwion Jones

**Tystysgrif TGAU**
Tomos Axford, Jac Davies, Marged Jones, Jona Marks

**Canlyniadau Blwyddyn 10**
Tomos Morgans

Pob dymuniad da i bob un ohonynt i'r dyfodol, boed mewn coleg neu ysgol neu mewn gwaith oddi wrth bob un ohonom yn yr Ofalaeth.

**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Hydref i'n Gweinidog neu Alun Charles**

## CYDYMDEIMLAD

**Tristwch oedd clywed am golli Gwynn Bowyer, Y Dderwen Fach, ar 6 Awst 2024 - un o ffyddloniaid y Priordy.  Estynnwn ein cydymdeinlad ag Ann, ei briod, a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth.  Bydd angladd cyhoeddus yn y Priordy ar Ddydd Llun, 2 Medi am 12.30. Cynhwysir teyrnged i Gwynn yn ein rhifyn nesaf.**

## ROTA YMWELWYR ELIM, HEOL AWST A'R PRIORDY
### *MEDI / HYDREF*

**Elim – Yr Aelodau   Heol Awst – Yr Aelodau**
**Y Priordy - Ein Gweinidog**

## DYLETSWYDDAU'R PRIORDY

### GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

| Medi | | Hydref | |
|---|---|---|---|
| **Gofalwr** | **Gwresogwr** | **Gofalwr** | **Gwresogwr** |
| Elinor W Reynolds | Adrian Evans | Sulwyn Thomas | Philip Jones |

### BLODAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Medi** | **1** | | **Hydref** | **6** | Beti-Wyn James |
| | **8** | Eurwen Jones | | **13** | |
| | **15** | | | **20** | Eira Phillips |
| | **22** | Jayne Jones | | **27** | |
| | **29** | | | | |

### PARATOI'R BWRDD CYMUN

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Medi** | **1** | **Bore** | Eleri Thomas a Delyth Davies |
| **Hydref** | **6** | **Hwyr** | Llinos Jones ac Elen Marks |

### DARLLENWYR

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gorffennaf** | **1** | Lleucu Edwards | **Hydref** | **6** | Y Plant |
| | **8** | Y Plant | | **13** | Yn Heol Awst |
| | **15** | Heledd Tomos | | **20** | Meleri Llwyd O'Leary |
| | **22** | Alwen Owen | | **27** | Gareth Gravell |
| | **29** | Catrin Mair Jones | | | |

### CYHOEDDWYR

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Medi** | Dennis Jones | **Hydref** | Elis Jones |

**Y DDIWEDDAR ELUNED MADDOX**

Trist gennym nodi marwolaeth un o aelodau'r Priordy, sef y ddiweddar Eluned Maddox, a fu farw ar ei haelwyd yn Hafan Tywi ar 2 Gorffennaf 2024.

Daeth Eluned a'i diweddar briod John atom wedi iddynt symud i'r dref o Bontargothi rai blynyddoedd yn ôl a bu'r ddau yn bresenoldeb tawel a ffyddlon yn yr oedfaon.

Fe'i ganwyd yn Lerpwl ond yn ystod yr ail ryfel byd, a dinas Lerpwl wedi dioddef dinistr mawr, danfonwyd Eluned a'i chwiorydd i ogledd Cymru, i Groesor at deulu ei mam. Symudodd eu rhieni o Lerpwl mewn dim amser ac ymgartrefodd y teulu ym Morthmadog.

Profodd Eluned yrfa lwyddiannus iawn y Swyddfa Dreth, a thra oedd yn gweithio yn Aberhonddu dyma gwrdd â John a phriodi. Mwynhaodd y ddau fywyd priodasol dedwydd iawn gan symud i'r Groes-faen ac i Abertawe cyn ymddeol yn Nyffryn Tywi. Bu Eluned yn ofalus iawn o John yn ei waelodd ac ergyd iddi oedd ei golli.

Roedd gan Eluned feddwl mawr o'i theulu, a chadwodd mewn cyswllt cyson â'i chwiorydd, ei neiaint a'i nithod a'u teuluoedd.

Er na lwyddodd i gyrraedd Y Priordy ers y cyfnod clo gan i'w hiechyd ddirywio, roedd ei diddordeb ym mywyd yr eglwys yn fawr. Byddai wrth ei bodd yn darllen Papur Priordy bob mis ac roedd yn ddiolchgar iawn am bob ymweliad a galwad ffôn gan yr aelodau.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i chwiorydd, Helen a Mair a'r cysylltiadau teuluol i gyd.

Daeth y ffyddloniaid ynghyd i Gapel Y Priordy ar ddydd Iau 25 Gorffennaf i oedfa i ddiolch am ei bywyd a'i gwaith. Teithiodd aelodau o'r teulu o bell i fynychu'r angladd – arwydd sicr o'r parch a fu i'w modryb.  Ymlwybrodd pawb yn dawel fach i Amlosgfa Parc Gwyn wedi'r oedfa yn y capel.

Rydym yn hynod o ddiolchgar i'r teulu am ddymuno bod cyfraniadau ariannol er cof am Eluned yn dod i'r Priordy. Gwerthfawrogir hyn yn fawr iawn.

Coffa da am Eluned a heddwch i'w llwch.

Ein Gweinidog

**CYMANFA GANU UNDEBOL CAERFYRDDIN A'R CYLCH**

**NOS SUL, 29 MEDI 2024 am 5**
**Capel Elim, Ffynnon-ddrain SA31 1TY**



**Arweinydd**
**Sioned Page, Blaenycoed**
**Organydd**
**John Evans, Elim**

**Rihyrsals yng Nghapel Elim dan ofal Helen Gibbon**
**Nos Sul, 14 Gorffennaf am 5 a Nos Sul 8 Medi am 5**

**Prif Rihyrsal yng ngofal Sioned Page yng Nghapel Elim**
**Nos Sul, 15 Medi am 5**

***Rhaglenni'r Gymanfa (Sol-ffa neu Hen Nodiant) ar gael gan Huw Michael - £2 yr un***

**Yr Emynau i'w Canu**

**2- Bryn Haul 3 - Hengoed 4 - Hesperus (Whitburn)**
**5 - Gwengar 6 - Efailwen 7 - Clawdd Madog 9 Ynys-fach**
**10 – Garthowen 12 – Malvern 13 - Rhydygroes**
**14 - Cyfrif y Bendithion 24 – Atat ti, Iesu da**



## PANED A SGWRS



**Bore Mercher, 11 Medi 2024 – 10.30**
**Gwesty'r Llwyn Iorwg**
**Cyfle am baned, sgwrs a myfyrdod byr – Croeso i bawb**

**GAIR O WERTHFAWROGIAD**


**Mae'r Priordy'n werthfawrogol iawn o'r rhodd ariannol a dderbyniwyd gennym yn ddiweddar er cof am y ddiweddar Eluned Maddox.**
**Mae'n diolch yn fawr am hyn.**

## CYFRES YR EGLWYSI ANGHYFFREDIN

### Edrychwn yn bennaf ar yr adeiladau

### EGLWYS SAN SIÔR, LALIBELA, ETHIOPIA





**Eglwys wedi'i naddu'n gyfan gwbl o garreg ar ffurf croes**



# Y SULIADURON



## ELIM

### MEDI

| Dyddiad | Pryd | Gwasanaeth | C | |
|---|---|---|---|---|
| 1 | 11.30 | Ein Gweinidog | C | |
| 8 | 3.00 | Cwrdd Hanner Blynyddol Heol Awst | | |
| 15 | 11.30 | Ein Gweinidog | | |
| 22 | 3.00 | Ein Gweinidog yn Heol Awst | | |
| 29 | 10.00<br><br>12.30 | Oedfa ar gyfer yr Ofalaeth yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg gyda'n Gweinidog<br>Cinio Dydd Sul yr Ofalaeth | | |

### HYDREF

| Dyddiad | Pryd | Gwasanaeth | C | |
|---|---|---|---|---|
| 6 | 11.30 | Oedfa Ddiolchgarwch gyda'n Gweinidog | C | |
| 13 | 10.00 | Oedfa Undebol yn Heol Awst gyda'n Gweinidog | | |
| 20 | 11.30 | Y Parchedig Randolph Thomas | | |
| 27 | 3.00 | Ein Gweinidog yn Heol Awst | | |

## HEOL AWST

### MEDI

| Dyddiad | Pryd | Gwasanaeth | C | |
|---|---|---|---|---|
| 1 | 11.30 | Ein Gweinidog yn Elim | | |
| 8 | 3.00 | Cwrdd Hanner Blynyddol gyda'r Parchedig Irfon Roberts a'n Gweinidog | C | |
| 15 | 11.30 | Ein Gweinidog yn Elim | | |
| 22 | 3.00 | Ein Gweinidog | | |
| 29 | 10.00<br><br>12.30 | Oedfa ar gyfer yr Ofalaeth yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg gyda'n Gweinidog<br>Cinio Dydd Sul yr Ofalaeth | | |

### HYDREF

| Dyddiad | Pryd | Gwasanaeth | C | |
|---|---|---|---|---|
| 6 | 11.30 | Oedfa Ddiolchgarwch gyda'n Gweinidog yn Elim | | |
| 13 | 10.00 | Oedfa Ddiolchgarwch Undebol yn Heol Awst gyda'n Gweinidog | C | |
| 20 | 11.30 | Y Parchedig Randolph Thomas yn Elim | | |
| 27 | 3.00 | Ein Gweinidog | | |

# Y PRIORDY

## MEDI

| Dyddiad | Pryd | Gwasanaeth | C | YS |
|---|---|---|---|---|
| 1 | 10.00 | Ein Gweinidog | C | |
| 8 | 10.00 | Cwrdd Plant gyda'n Gweinidog | | |
| 15 | 10.00 | Ein Gweinidog | | |
| 22 | 10.00 | Ein Gweinidog – bydd yr Oedfa a'r Ysgol Sul yng Nghanolfan Magu yn y dref | | |
| 29 | 10.00<br><br>12.30 | Oedfa ar gyfer yr Ofalaeth gyda'n Gweinidog yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg<br>Cinio Dydd Sul yr Ofalaeth | | |

## HYDREF

| Dyddiad | Pryd | Gwasanaeth | C | YS |
|---|---|---|---|---|
| 6 | 10.005<br>5.00 | Oedfa Ddiolchgarwch Deuluol<br>Oedfa Ddiolchgarwch gyda'r Hybarch Eileen Davies, Archddiacon Aberteifi | C | |
| 13 | 10.00 | Oedfa Undebol yn Heol Awst gyda'n Gweinidog | | |
| 20 | 10.00 | Y Parchedig Evan Morgan | | |
| 27 | 10.00 | Ein Gweinidog | | |

| | |
|---|---|
| C | Cymundeb |
| YS | Ysgol Sul |

**YR YSGOL SUL**



**Bydd teuluoedd yn derbyn negeseuon am drefniadau'r Ysgol Sul**

**DIOLCH YN FAWR**



Diolch i Beti-Wyn, Betsan James,Nigel George, Tim Hayes  ac athrawon yr Ysgol Sul am y lluniau'r mis hwn

**Cymanfa Ganu Undebol Caerfyrddin a'r Cylch**

**Annwyl Ffrindiau**

**Hoffwn apelio'n daer am gefnogaeth i'r rihyrsals a'r Gymanfa oddi wrth aelodau a chyfeillion eich Eglwys ac edrychwn ymlaen i gael eich cwmni yn y Rihyrsal nesaf, Nos Sul, 8fed Medi 2024 yng ngofal Helen Gibbon.  Bydd y Brif Rihyrsal Nos Sul, 15 Medi yng ngofal Sioned Page Jones.**

**Amgaeaf restr o'r emynau sydd wedi eu dewis gan yr arweinyddes wadd, Sioned Page Jones ar y cyd â Helen Gibbon. Apeliaf arnoch fel eglwysi i ymarfer yr emynau yma yn eich gwasanaethau, os gwelwch yn dda.**

**Ga i ofyn yn garedig i chi felly rannu'r wybodaeth yn eang am y rihyrsals a'r Gymanfa er mwyn sicrhau cynulleidfa deilwng yn Elim yn mis Medi.**

**Edrychwn ymlaen at gael eich cwmni.**

**Cofion cynnes,**

**Olga Williams**

**Ysgrifennydd**

***Mae rhai manylion pellach am y Gymanfa y tu mewn***

**BORE COFFI McMILLAN**
***Yn rhan o Fore Coffi Mwya'r Byd***

**Dydd Gwener 27 Medi 2024**
**Clwb y Cwins, Abergwili**
**9.30 tan 12.00**

**Mynediad am ddim**

**Stondinau Cynnyrch Cartref a Raffl**

**Am ragor o wybodaeth, neu i gynnig eich help ac unrhyw gyfraniad at y raffl neu'r stondin cacennau, cysylltwch ag Alison Parsons, os gwelwch yn dda**